



Tirweddau Cymru Landscapes Wales

Llywodraeth Cymru Ymateb ymgynghoriad

Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy

Cyflwyniad:

Mae'r wyth Tirwedd Ddynodedig yng Nghymru yn cydweithio mewn partneriaeth dan enw Tirweddau Cymru Landscapes Wales (TCLW). Mae gan ein Tirweddau Dynodedig rôl hanfodol i'w chwarae yn nyfodol adferiad natur yng Nghymru. Mae eu dynodiad yn cydnabod eu gwerth fel tirweddau a'u cyfraniad i fyd natur, diwylliant a threftadaeth. Mae ein Tirweddau Dynodedig yn parhau i gael eu siapia gan dirfeddianwyr, rheolwyr tir a ffermwyr, ac maent ar hyn o bryd yn fecanwaith cyflawni allweddol ar gyfer gweithredu ar adfer natur a defnydd tir ar gyfer sero net. Mae system gymorth wydn a chynaliadwy ar gyfer adfer natur ar raddfa ac yn gyflym yn hanfodol ar gyfer y dyfodol.

Mae Tirweddau Cymru yn croesawu'r ymgynghoriad hwn gan Lywodraeth Cymru gan ddatblygu dull newydd o ymdrin â chyllid cynaliadwy ar gyfer adferiad natur, ac mae'n cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd yn y maes hwn i gefnogi a datblygu cyllid cynaliadwy yng Nghymru. Byddai Tirweddau Cymru yn croesawu'r cyfle i gyfrannu ac i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru wrth i'r gwaith hwn ddatblygu. O ystyried ein hanes o lwyddiant fel cydweithredwyr a hwyluswyr rheolwyr tir, credwn y gall partneriaid Tirweddau Cymru ddarparu mewnbwn gwerthfawr i lywio datblygiad a gweithrediad Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy i Gymru. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi derbyn cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i benodi Pennaeth Datblygiadau Cyfalaf Naturiol, a fydd yn arwain graddfa ac amserlen y gwaith o ymchwilio, datblygu a chyflwyno cynllun peilot ar gyfer un neu fwy o blatfformau masnachu cyfalaf naturiol a chynlluniau talu am wasanaethau ecosystem. Bydd y swydd hon yn dechrau ym mis Ionawr 2025, gan ddarparu gwasanaeth trosglwyddo gwybodaeth ar gyfer Tirweddau Cymru.

Cwestiwn 1: Beth yw eich barn am yr egwyddorion arfaethedig?

Mae Tirweddau Dynodedig yn gweithio mwy a mwy i ymgysylltu gyda chyllid gwyrdd a buddsoddiad preifat sy'n cael ei arwain gan yr angen i gynorthwyo i gyflawni dibenion a chynlluniau rheoli'r Tirweddau Dynodedig ac i warchod y nodweddion sy'n sail i'r rhinweddau arbennig. Rydym yn croesawu ymagwedd tuag at egwyddorion buddsoddi cynaliadwy sy'n cyd-fynd â stiwardiaeth amgylcheddol a gwella iechyd ecolegol tirweddau yn y tymor hir.

Yn unol â'r pum ffordd o weithio, mae'n rhaid i Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy arwain cyllid sy'n gallu integreiddio adferiad natur, gan hefyd gefnogi cymunedau lleol a gwella gwasanaethau ecosystem.

Er bod cyflawni sero net yn cael ei grybwyll yn yr ymgynghoriad, teimlwn nad yw'n cael ei ystyried yn ddigon manwl ac nad yw'n ystyried yr angen ar gyfer pontio teg (h.y. sut y gallwn ddiogelu rhag risgiau y gallai gweithgareddau datgarboneiddio arwain at oblygiadau negyddol i'r cymunedau). Mae angen rhagor o fanylion ynglŷn â dulliau o greu a rhannu buddion cyhoeddus, preifat ac i'r gymuned, gan hefyd gyfrannu at bontio teg. Er y byddem yn ffafrio atebion sylfaenol sy'n cael eu harwain yn lleol ar gyfer cyllid preifat yn hytrach na chorfforaethau mawr, absennol yn prynu tir er enghraifft, byddem yn dymuno gweld y buddsoddwr yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Ddeddf a'r pum ffordd o weithio.

Cwestiwn 2 - Beth yw eich barn ar sut y gellir cymhwyso'r egwyddorion i ddarparu atebion sy'n seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystem?

Dylai'r egwyddorion flaenoriaethu buddsoddiad mewn gwarchod adnoddau naturiol ac ecosystemau, gan anelu at gynnal, gwella ac adfer bioamrywiaeth, cynyddu'r gallu i atafaelu carbon, a diogelu ansawdd dŵr. Dylai blaenoriaethau buddsoddi cynaliadwy arwain buddsoddiad mewn prosiectau sy'n gwneud cyfraniad positif i stiwardiaeth amgylcheddol hirdymor, megis adfer cynefinoedd, ailgoedwigo, ac amaethyddiaeth gynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid egluro'r hyn sy'n rhaid ei gyflawni, ei fesur a'i werthuso yn y lle cyntaf. Mae'n rhaid i'r broses hon gael ei chwblhau mewn cydweithrediad llwyr gyda'r rhanddeiliaid sydd wedi'u heffeithio, er enghraifft grwpiau clwstwr fferm sy'n gweithio gyda

phartneriaethau cymunedol ehangach a'r asiantaethau, awdurdodau a'r cyrff anllywodraethol perthnasol yno. Mae'r broses hon yn cymryd amser.

Atebion ar sail natur

Ar ôl diffinio a nodi atebion ar sail natur mewn ardal benodol yn y lle cyntaf, ynghyd â'r tîrfeddianwyr, ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr dŵr a fydd yn eu cyflawni, dylai'r egwyddorion buddsoddi hybu buddion atebion ar sail natur i fynd i'r afael â heriau megis y newid yn yr hinsawdd (e.e. defnydd tir ar gyfer sero net), llifogydd, a diraddiad pridd. Gallai canlyniadau'r atebion hyn gynnwys adfer gwlyptiroedd, adfer mawndiroedd, adfer glaswelltiroedd a choetiroedd llawn rhywogaethau, ac arferion ffermio cynaliadwy, gan ddarparu buddion ecolegol ac elw economaidd, a'u gwneud yn ddeniadol i fuddsoddwyr sydd â diddordeb mewn cyllid gwyrdd neu foesegol.

Cefnogi economïau lleol

Mae'n rhaid annog buddsoddwyr i gefnogi cymunedau lleol, yn enwedig mewn Tirweddau Dynodedig lle mae economïau gwledig yn aml yn dibynnu ar amaethyddiaeth, twristiaeth, neu ddiwydiannau artisan. Yn enwedig wrth ystyried effaith lluosydd economaidd y cyllid a ddarperir mewn cymunedau gwledig. Bydd y gwaith gan Bennaeth Datblygu Cyfalaf Naturiol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnwys archwilio ymarferoldeb atebion cyfalaf naturiol lleol a thaliadau am wasanaethau ecosystem, er mwyn sicrhau tryloywder, atebolrwydd a buddion lleol. Mae'n rhaid i fuddsoddiadau geisio hybu'r sectorau hyn mewn modd sy'n gwella bywoliaeth pobl leol gan hefyd gynnal uniondeb y dirwedd. Er enghraifft, gall eco-dwristiaeth neu ffermio cynaliadwy greu incwm gan hefyd warchod asedau naturiol ar yr un pryd.

Buddsoddiad moesegol a chyfrifol

Mae'n rhaid i egwyddorion buddsoddi cynaliadwy fod yn foesegol a dylai hynny fod yn ganolog i'w gweithrediad. Mae hyn yn cynnwys gwrthod arianwyr sy'n camfanteisio ar ei weithwyr neu'n ecsbloetio a diraddio adnoddau naturiol, megis torri coed yn anghynladwy, mwyngloddio, neu ffermio dwys. Byddem yn croesawu pe byddai Llywodraeth Cymru yn gosod meini prawf clir ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried yn fuddsoddiad moesegol a chynaliadwy a sicrhau bod pob gweithgaredd ariannol yn cyd-fynd â Deddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016).

Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat

Mae cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, buddsoddwyr preifat, cyrff anllywodraethol a rhanddeiliaid lleol, yn unol â pholisi ac amcanion lleol a rhanbarthol, yn allweddol er mwyn cyflawni buddsoddiad cynaliadwy mewn Tirweddau Dynodedig. Gall partneriaethau o'r fath sbarduno cyfalaf ar gyfer prosiectau ar raddfa fawr megis adfer ecosystemau, ynni adnewyddadwy, a gwelliannau i seilwaith sydd o fudd i natur a chymdeithas.

Gwytnwch ac Addasu i'r Hinsawdd

Mae buddsoddiadau cynaliadwy mewn prosiectau sy'n canolbwyntio ar ddefnydd tir ar gyfer sero net ac ynni adnewyddadwy sy'n sensitif i'r tir a'r môr yn berthnasol mewn Tirweddau Dynodedig. Rydym yn argymhell trafodaeth bellach gyda'r cyrff Tirweddau Dynodedig i nodi'r prosiectau perthnasol sydd ar waith ac yn ymarferol yma.

Modelau Economi Gylchol ac Economi Sylfaenol

Dylid ystyried dulliau economi gylchol, sy'n pwysleisio ar leihau gwastraff a gwneud gwell defnydd o adnoddau, yn ogystal â dulliau economi sylfaenol sy'n sicrhau dealltwriaeth leol, cyflogaeth a chadw cyllid o fewn yr economi leol. Dylai'r egwyddorion gynorthwyo i arwain buddsoddiad yn ymwneud â datblygu arferion cynaliadwy sy'n lleihau dibyniaeth ar adnoddau anadnewyddadwy, hybu ailgylchu a chynyddu'r defnydd o ddeunyddiau biddiraddadwy.

Atafaelu a Gwrthbwysu Carbon

Mae Tirweddau Dynodedig yn hanfodol ar gyfer atafaelu carbon drwy reoli glaswelltiroedd, coetiroedd, mawndiroedd a phriddoedd.

Er bod gwrthbwysu carbon yn gallu cynnig buddion ariannol a helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ceir pryderon ynglŷn â sicrhau nad yw'r prosiectau hyn yn peryglu bioamrywiaeth neu ecosystemau lleol. Mae'n rhaid i egwyddorion buddsoddi cynaliadwy sicrhau'r canlynol:

- Bod prosiectau gwrthbwysu'n cael eu dylunio'n ofalus i osgoi effeithiau negyddol ar ansawdd cynefinoedd neu gadwraeth rhywogaethau.
- Bod sylw'n cael ei roi i atafaelu carbon hirdymor, lle ceir risg o "ddadleoli" (allyriadau'n gostwng mewn un maes ond yn cynyddu mewn maes arall) a pharhauster storfeydd carbon (yn enwedig mewn ecosystemau sy'n agored i ddiraddio neu effeithiau'r hinsawdd).
- Bod cymunedau lleol yn ymgysylltu â phrosiectau gwrthbwysu. Dylai prosiectau carbon gynnwys rhanddeiliaid lleol, gan sicrhau bod y buddion yn cael eu rhannu gyda'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd hyn, yn enwedig mewn rhanbarthau gwledig.

Mae Tirweddau Dynodedig yn cael eu gweld fwy a mwy yn feysydd delfrydol ar gyfer arbrofi a dangos hyfywedd strategaethau buddsoddi cynaliadwy. Maent yn cynnig enghreifftiau gwirioneddol o sut y gall buddsoddiad gefnogi adferiad natur yn ogystal â datblygiad economaidd cynaliadwy.

Cwestiwn 3 - A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod ein dull arfaethedig yn ategu gwerthoedd/safonau cynlluniau a chodau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?

Mae'r cynlluniau a'r codau hyn yn arwyddocaol o ran darparu elfen o sicrwydd. Byddem yn croesawu'r opsiwn i ystyried goblygiadau cael ystod ehangach o'r rhain, a allai helpu i sicrhau ein bod yn gallu bod o fudd i ystod ehangach o weithgareddau. Rydym yn credu ei bod yn bwysig codi pryderon yn ymwneud â'r costau sy'n gysylltiedig â rhai o'r cynlluniau a'r codau sy'n gallu lleihau'r incwm i dirfeddianwyr a chymunedau. Bydd y Pennaeth Datblygu Cyfalaf Naturiol yn ymchwilio i'r modelau hyn ac eraill yn y DU a thramor, yn ogystal â dichonoldeb atebion newydd.

Cwestiwn 4 – Beth yw eich barn am ein dull arfaethedig o archwilio cyllid cynaliadwy yng Nghymru?

Rydym yn croesawu cefnogaeth gan Gyllid Rhwydweithiau Natur i gefnogi capasiti yn y maes hwn. Byddem yn ceisio sicrwydd bod hyn yn cael ei gydbwysu gyda'r gronfa barhaus i

gefnogi adferiad natur trwy waith a ariennir yn uniongyrchol; rydym yn paratoi i archwilio cyllid cyfunol.

Rydym yn pwysleisio'r angen am lywodraethu cryf a thryloywder ar gyfer unrhyw grwpiau buddsoddi neu bartneriaethau i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn deg. Byddem yn croesawu mwy o fanylion ar fecanweithiau gorfodi i sicrhau bod y buddsoddiadau yn gwneud cyfraniad gwirioneddol i nodau amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor.

Dylid hefyd ganolbwyntio ar sicrhau bod anghenion penodol Cymru – megis gwarchod ei thirweddau, ei diwylliant, ei hiaith a'i threftadaeth unigryw – yn cael eu cynrychioli yn y cydweithrediadau ehangach hyn.

Mae gwaith a ariennir gan gyllid craidd yn ganolog i waith tirweddau dynodedig a'u gallu i gyflawni'r blaenoriaethau a ddisgwyllir ganddynt.

Cwestiwn 5 - Beth ydych chi'n meddwl yw'r rhwystrau sy'n atal pobl a chymunedau Cymru rhag cymryd rhan mewn adferiad natur?

Rydym yn cytuno gyda'r rhwystrau a nodwyd yn [adroddiad Finance Earth, Eunomia ac RSPB Cymru ar ran Llywodraeth Cymru](#). Rydym yn gweld potensial mewn archwilio modelau lleol, sylfaenol a chyfalaf naturiol fel ffordd o fagu hyder, dealltwriaeth a symudiad.

Gall rhwystrau i gymunedau lleol gynnwys demograffig sy'n newid mewn cymunedau gwledig -diboblogi a phoblogaeth sy'n heneiddio, diffyg amser gan fod nifer yn gorfod gweithio mewn mwy nag un swydd i wneud bywoliaeth, seilwaith gwael gyda phrinder trafndiaeth a chyfleoedd mynediad, sydd oll yn gysylltiedig â thlodi gwledig.

Mae cadwraeth natur yn gweithio, ac mae safleoedd dynodedig yn gweithio, ond maent bob amser wedi bod yn eilradd o safbwynt polisi a chyllid cyhoeddus, ac felly, nid ydynt erioed wedi bod yn ddigonol i atal dirywiad natur. O ystyried mai'r rheswm pennaf dros ddirywiad natur yw diffyg cyllid a chefnogaeth ddigonol, hoffem dynnu sylw at fater recriwtio a'r diffyg sgiliau cyffredinol (nid o fewn y farchnad gwasanaethau ecosystem yn unig). Os mae'r egwyddorion hyn am arwain cynnydd llwyddiannus a sylweddol mewn arallgyfeirio cyllid a mentrau ar gyfer tirweddau, bydd angen pobl fedrus i gyflawni'r gwaith er mwyn mynd i'r

afael â cholli bioamrywiaeth, gwella ansawdd dŵr a lliniaru'r newid hinsawdd. Bydd angen dull traws wasanaeth a pholisi ar gyfer hyn - sectorau adfer natur a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach ledled Cymru yn cyd-fynd â'i gilydd.

Bydd canfyddiadau ac argymhellion yn deillio o waith Fframwaith Pontio Teg Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol o ran yr amgylchedd, newid yn yr hinsawdd a materion gwledig. Bydd y rhain yn berthnasol i rwystrau ehangach ac mewn perthynas ag Egwyddorion sy'n cefnogi mwy o ymgysylltiad gyda natur, cysylltedd natur ac ymddygiadau i hybu cadwraeth yn ein cymunedau yng Nghymru. Gallai'r canfyddiadau hyn helpu i lywio a chael eu hintegreiddio ymhellach i'r Egwyddorion i arwain cyflawniad teg.

Cwestiwn 6: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt:

Mae adroddiad Finance Earth, Eunomia ac RSPB Cymru yn cynnwys nifer o argymhellion gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer cynlluniau peilot.

Mae Tirweddau Dynodedig Cymru a'u timau mewn sefyllfa dda i rannu profiad o'u gwaith gyda ffermio a rheoli tir sy'n garedig i natur, ac atebion ar sail natur sydd oll yn cynnig potensial i fuddsoddwyr. Mae hyn yn cynnwys y gwaith recriwtio presennol yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gyfer Pennaeth Datblygiadau Cyfalaf Naturiol, a fydd yn arwain graddfa ac amserlen y gwaith o archwilio, datblygu a chyflwyno cynllun peilot ar gyfer un neu fwy o blatfformau masnachu cyfalaf naturiol a chynlluniau taliadau am wasanaethau ecosystem.

Mae Tirweddau Dynodedig yn hanfodol er mwyn cyflawni atebion ar sail natur, gan ddarparu gwasanaethau hanfodol megis atafaelu carbon, lliniaru llifogydd, a chadw bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae ganddynt botensial i gynnig mwy na hynny drwy weithredu fel meysydd allweddol ar gyfer targedu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ynghyd â phrosiectau ariannu a phrosiectau peilot eraill sy'n anelu at gefnogi ymdrechion adfer natur ehangach ar draws ystod o gynefinoedd ar draws y tirweddau.

Trwy warchod a gwella ecosystemau o fewn y tirweddau hyn, gallwn adfer cynefinoedd, gwella gwasanaethau ecosystem, a chynyddu gwytnwch i'r hinsawdd. Gall y meysydd hyn

weithredu fel labordai byw ar gyfer buddsoddi mewn dulliau adfer cynefinoedd, ailgyflwyno rhywogaethau, ac arferion rheoli tir yn gynaliadwy. Yna gellir datblygu'r wybodaeth sy'n deillio o'r prosiectau peilot hyn a'u gweithredu'n ehangach mewn rhanbarthau eraill, gan gyfrannu at yr ymdrech ehangach o wyrddroi colledion bioamrywiaeth a gwella'r amgylchedd naturiol, gan hefyd gefnogi cymunedau, diwylliant ac iaith leol.

Byddem yn croesawu ystyriaeth o'r cyfleoedd a gynigir gan dwf y datblygiad ynni morol o amgylch arfordir Cymru. Gallai'r datblygiadau hyn gynnig rhywfaint o gyfleoedd ariannu a mecanweithiau i'w hystyried ar gyfer cefnogi cymunedau arfordirol yn ogystal ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Dylai'r ffocws fod ar sicrhau bod anghenion penodol Cymru - fel diogelu ei thirweddau, diwylliant, iaith a threftadaeth unigryw - yn cael eu cynrychioli.